

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Mehfin 9fed, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd),

- 1444** Estynnwyd croeso cynnes i bawb.
- 1445** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1446** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
- 1447** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 5ed, 2015.
- 1448** Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion.
- 1449** Ystyriwyd cais "Ffrindiau Neuadd Buddug" am nawdd (gw, cofnodion Mai 1443.4.iv) a chytunwyd i gyfrannu £100 tuag at brynu offer digidol er mwyn cynnal gwasanaeth dangos ffilmiau yn Y Bala. Mynegwyd diddordeb i gael gwybodaeth reolaidd am hynt y gwasanaeth.
- 1450** Derbyniwyd Adroddiad o'r Gynhadledd yn Llandrindod a fynychwyd gan Huw Antur a'r Clerc. Roedd y Gweinidog Leighton Andrews wedi cyfeirio'n benodol at waith da Partneriaeth Penllyn.
- 1451** Derbyniwyd neges gan y Cynghorydd Sir ei fod yn ceisio estyn y cyfyngiad 20mya trwy weddill y Llan.
- 1452** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig Huw Roberts o gyfarfod o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru 13/5/15 pryd y canmolwyd gwaith y Partneriaeth Penllyn gan y Prif Weithredwr. Cyfeiriwyd hefyd at gyfraniad enfawr y diweddar Isgoed Williams i waith llywodraeth leol.
- 1453 Materion Eiddo'r Cyngor**
- i. Cytunodd Karl Jones, Huw Antur a'r Cadeirydd i symud yr elor o Gwt yr Hers i ddiogelwch Capel Aion dros dro, gan ddiolch i swyddogion Aion am y llety.
 - ii. Cytunwyd i roi ystyriaeth o wariant arian Cwt yr Hers ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
 - iii. Y fynwent: derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf a rhoddwyd caniatâd i wneud toriadau gwair ychwanegol yn y yn ôl y galw. Cytunwyd i ofyn am chwynnu'r Gilfach. Cytunodd Clerc y Fynwent i roi enwau'r torwyr beddau cydnabyddedig ar y Wefan yng nghyd a'u manylion cyswllt. Cytunodd Clerc y Fynwent i baratoi taflen ddwyieithog o ffioedd y Cyngor ar gyfer Ymgymerywyr, yng nghyd a thaflen i deuluoedd yn amlinellu rheolau'r fynwent, megis dim plannu, dim addurniadau ychwanegol, ac yn y blaen.
 - iv. Cytunodd Huw Antur i archebu sensor ar gyfer y toiledau.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

1454 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis yng nghyd a chostau teithio i Landrindod.
- ii. Cymeradwywyd ffurflen Hacker Young wedi ei harchwilio gan John Roberts.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth fod Pwyllgor y Neuadd wedi caniatáu cadw dogfennau pwysig y Cyngor mewn cwpwrdd gwag yn y neuadd a chytunwyd y gallai'r gofod hwn gynnwys cwpwrdd ffeilio. Diolchwyd i Bwyllgor y Neuadd.
- iv. Adroddwyd fod yr is bwyllgor Cyllid wedi adolygu a diweddarau'r Asesiad o Risgiau Ariannol.

1455 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Clirio Ffos y Feidiog – mae taflen waith wedi'i greu sy'n cynnwys hyn.
- ii. Gofynnwyd i'r Clerc a'r Cynghorydd i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am dorri'r gwair o gwmpas y ddwy fainc ar y groesffordd sy'n arwain at Gwm Cynllwyd.

1456 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr, a gyfeiriodd at newidiadau ar ochr Parc Cenedlaethol Eryri sydd wedi arwain at newidiadau yng ngwaith a staffio'r Bartneriaeth. Mae cynlluniau ar droed i uwchraddio llawr uchaf yr Henblas.

1457 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais i osod sistem garthffos ym maes carafanau Bryn Gwyn.
- ii. Cymeradwywyd ceisiadau NP5/71/LB352 A a B, sef newidiadau mewnol ac allanol yn cynnwys dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad unllawr newydd yn y Neuadd Wen, Llanuwchllyn.
- iii. Cymeradwywyd cais NP5/71/409B i godi adeilad amaethyddol a chreu mynedfa cerbydau newydd ym Mryn Caled.
- iv. Cymeradwywyd cais NP5/71/452 i adeiladu tŷ menter gwledig a gosod sistem trin carthion bach ar dir i'r de o Ffridd Helyg.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i osod gwifren wrth Llechwedd Fwyalchen.

2 Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am gyhoeddi rhybudd statudol i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer ysgol gydol oes yn Y Bala.

3. Un Llais Cymru: mae'r Clerc yn ceisio arweiniad cliriach yng nglŷn â chofrestru buddiannau cynghorwyr ar y we.

4. Eraill:

- i. Derbyniwyd llythron o ddiolch oddi wrth Alzheimer's Society a Tenovus am gyfraniadau'r Cyngor.
- ii. Nodwyd derbyn llythyr parthed Cynllun Adnau ond cytunwyd fod y mater yn berthnasol i ardal cynllunio Gwynedd a Môn yn hytrach nag ardal cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/7/15